

Maniffesto etholiadau Senedd Ewrop Greener UK

Mai 2019

Rydym yn wynebu argyfwng ecolegol a hinsawdd, gyda phoblogaethau o fywyd gwyllt yn diflannu, ecosystemau'n israddio a'r blaned yn cynhesu ar gyfradd beryglus o gyflym. Mae cefnogaeth enfawr y cyhoedd i fynd i'r afael â'r problemau hyn yn amlwg yng nghymau gweithredu plant ysgol sy'n streicio a phrotestwyr ar y stryd, yn ogystal â pholau piniwn cyson a'r 8 miliwn o aelodau sy'n perthyn i'n sefydliadau ni ar y cyd.

Tra mae'r DU yn parhau'n aelod o'r UE bydd ein ASEau yn parhau i fod â rôl allweddol i'w chwarae mewn dylanwadu ar bolisiau amgylcheddol. Mae amcangyfrif o 80 y cant o'r deddfau amgylcheddol ym mhob un o'r pedair gwlad yn y DU yn dod o'r UE, gan gynnwys polisiau i warchod bywyd gwyllt ac i gyflawni 55 y cant o'r gostyngiadau mewn allyriadau sy'n ofynnol yn y DU erbyn 2030.

Os bydd y DU yn cymryd rhan yn etholiadau Senedd Ewrop 2019, mae Greener UK yn annog y criw newydd o ASEau i gyfeirio eu dylanwad a'u gallu deddfwriaethol tuag at gyflawni'r meincnodau canlynol ac, yn benodol, hybu'r polisiau allweddol sydd wedi'u nodi isod.

Meincnodau

1. Mwy o uchelgais a safonau uwch, yn cyd-fynd â graddfa'r argyfwng amgylcheddol, gydag adnoddau priodol a dim potensial am lithro'n ôl.
2. Gweithredu a gorfodi cadarn ar y gyfraith amgylcheddol, gan gyflawni hawliau pobl i wybodaeth amgylcheddol, cyfranogiad cyhoeddus, mynediad at gyfiawnder a mesurau gwella sylweddol.
3. Cydweithredu rhyngwladol effeithiol ar yr amgylchedd, gan gynnwys ynni a newid yn yr hinsawdd.
4. Integreiddio gwarchod ac adfer amgylcheddol ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau, gan gynnwys masnach, cyllid a pholisi tramor, gan leihau ein hól troed amgylcheddol yn fyd-eang.

Polisiau

Hinsawdd

Drwy Gytundeb Hinsawdd Paris, mae'r UE wedi cytuno i geisio cyfyngu ar y cynnydd byd-eang mewn tymheredd i 1.5°C. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, dylai'r UE wneud y canlynol:

- Pennu targed seiliedig ar wyddoniaeth ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr sero, a chynyddu'n sylweddol dargedau 2030 ar gyfer lleihau allyriadau, ynni adnewyddadwy ac arbed ynni.
- Cynllunio polisi ac ymrwymo cyllideb i hybu storio carbon drwy brosesau fel adfer mawndir a phlannu coed.

- Stopio buddsoddi arian cyhoeddus mewn gweithgareddau allyriadau dwys a seilwaith fel meysydd awyr, a buddsoddi mewn economi gynaliadwy i leihau'r risg ariannol mae newid yn yr hinsawdd yn ei chreu.

Natur

Mae'r UE yn cynnwys rhai o'r ardaloedd sydd wedi colli mwy o fyd natur nag unman arall ar y blaned, gyda'r DU ymhlith y gwaethaf yn ôl yr adroddiad Sefyllfa Byd Natur. I helpu adferiad byd natur, dylai'r UE wneud y canlynol:

- Sicrhau gweithredu gwell a gorfodi cadarn ar y deddfau natur presennol, gan gynnwys deddfau perthnasol i ddŵr, cynefinoedd a rhywogaethau. Er enghraifft, rhaid rhoi mesurau ar waith ar unwaith i atal pysgota anghyfreithlon ac i gyrraedd targed 2020 sydd wedi'i gytuno o roi terfyn ar orbysgota.
- Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin fel bod mwy o arian cyhoeddus yn mynd tuag at fesurau i gyflawni adferiad amgylcheddol, fel creu cynefinoedd, adfer pridd, gwella'r dirwedd a gwella ansawdd dŵr.
- Rhoi adnoddau llawn i raglenni trawswladol fel LIFE a Natura 2000 sy'n sbarduno, ymhlith pethau eraill, cadwraeth bywyd gwyllt.
- Defnyddio ei ddylanwad ar y llwyfan rhyngwladol i sicrhau targedau byd-eang cadarnach ar gyfer bioamrywiaeth yn yr uwchgynhadledd yn Tsieina yn 2020.

Adnoddau a gwastraff

Mae'r argyfwng plastig yn tynnu sylw at yr angen am ddull newydd o weithredu nid yn unig gyda gwastraff, ond o ran sut rydym yn defnyddio adnoddau. I gyflawni hyn, dylai'r UE wneud y canlynol:

- Gweithredu ar sail targedu i sicrhau effeithlonrwydd adnoddau. Arwain y sectorau sy'n tanberfformio fwyaf i wneud mwy gyda llai o adnoddau, gan gynnwys adeiladu, gweithgynhyrchu cerbydau, bwyd a diod, electroneg a thecstilau. Ehangu'r Gyfarwyddeb Eco-ddylunio hynod lwyddiannus fel ei bod yn cynnwys amrywiaeth ehangach o gynhyrchion, ac am eu cylch bywyd cyfan.
- Datblygu strategaeth benodol i sicrhau deunyddiau crai allweddol: cyflwyno safonau ailgylchu newydd i ddatgloi buddsoddiad yn y seilwaith ailgylchu, a gwobrwyo gweithgynhyrchwyr sy'n defnyddio cynnwys wedi'i adfer.
- Archwilio allforion gwastraff yn well i atal tomenni gwastraff anghyfreithlon mewn gwledydd datblygedig sy'n agored i niwed.
- Cael gwared ar gyswllt pobl a'r amgylchedd â'r cemegion peryclaf, gan eu newid yn gynt am opsiynau diogelach. Mae cemegion peryglus yn dal i gael eu defnyddio mewn cynhyrchion bob dydd fel plastigau a dodrefn, ac mae plaladdwyr gwenwynig yn dal i gael eu chwistrellu ar gaeau ac yn llygru ein bwyd.

Ansawdd aer

Mae llygredd aer yn achosi niwed economaidd a chymdeithasol helaeth, gan gynnwys mwy na 400,000 o farwolaethau cynnar bob blwyddyn yn yr UE, gydag oddeutu 30,000 o'r rhain yn digwydd yn y DU. Rhaid i'r UE wneud y canlynol:

- Sicrhau bod deddfau ansawdd aer yn cael eu gorfodi'n llawn, gan wrthsefyll pob ymgais gan lywodraethau'r aelod wladwriaethau i'w gwario.
- Cyflwyno rheolau newydd i fynd i'r afael â'r prif ffynonellau o lygredd, o'r sector trafndiaeth, ynni, gwresogi, diwydiannol ac amaethyddol.

- Diweddarau safonau ansawdd aer yr UE i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r rhai a argymhellir gan Sefydliad Iechyd y Byd.

Perthynas y DU a'r UE

Beth bynnag fydd y berthynas yn y dyfodol rhwng y DU, ei gwledydd, a'r UE, mae'n hanfodol cynnal cydweithrediad amgylcheddol agos a safonau amgylcheddol uchel. Boed ym maes diplomyddiaeth yr hinsawdd, rhwydweithiau ar gyfer cadwraeth natur neu ddal ei gilydd yn atebol am lygredd aer a phlastig trawsffiniol, ceir rhesymeg amgylcheddol gadarn dros gydweithio ar draws ffiniau.

Amy Mount, head of Greener UK unit

e: amount@green-alliance.org.uk

t: 020 7630 451

GREENER UK

